

GAEC 3: Dŵr – Dŵr Daear



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ionawr 2017

Nod y gofyniad hwn yw diogelu dŵr daear rhag cael ei lygru gan weithgareddau amaethyddol.

Diffiniad

- Diffinnir dŵr daear fel unrhyw ddŵr sydd islaw wyneb y tir sydd mewn parth dirlawnder (hynny yw, islaw'r lefel trwythiad) ac yn cysylltu'n uniongyrchol â'r tir neu'r isbridd.
- Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru restr gyflawn o sylweddau peryglus a sylweddau nad ydynt yn beryglus.

Y prif ofynion

- O dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010, rhaid cael trwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru cyn gwaredu sylweddau peryglus neu sylweddau nad ydynt yn beryglus ar dir yn unig ac mae'n rhaid i chi fodloni holl amodau'r drwydded.
- Peidiwch â gwasgaru hen ddip defaid ar dir serth nac ar dir sy'n draenio'n wael, yn llawn dŵr neu sydd wedi cracio.
- Peidiwch â gwasgaru unrhyw sylweddau peryglus neu sylweddau nad ydynt yn beryglus ar dir sydd o fewn 10 metr o ddŵr wyneb neu 50 metr o ffynnon, pistyll, twll turio neu gwrs dŵr sy'n bwysig i natur.
- Lle bynnag mae sylweddau peryglus neu sylweddau sy'n llygru yn cael eu defnyddio, eu cynhyrchu, eu storio neu eu trin, bydd disgwyl i ffermwyr gadw at y Codau Ymarfer amrywiol e.e. Cod Gwaredu Dip Defaid a gofynion Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Storio Olew) (Cymru) 2016/359.

Archwiliadau maes

- Gofalu bod gennych drwydded ddilys gan Cyfoeth Naturiol Cymru cyn gwaredu sylweddau pheryglus a sylweddau nad ydynt yn beryglus ar y tir.
- Gofalu nad yw hen fatriâu cerbydau yn llygru dŵr daear.

Arfer da

- Rhaid i ffermwyr a chontractwyr ddilyn y Cod Ymarfer Defnyddio a Gwaredu Cyfansoddion Dip Defaid yn ogystal ag unrhyw ofynion trwyddedu penodol. Mae copïau ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.
- Wrth waredu dip defaid, gwasgarwch ychydig ar y tro ee ddim mwy na 5 metr ciwbig yr hectar os nad ydych am ei deneuo neu, os ydych yn defnyddio tancer sugno neu 20 metr ciwbig yr hectar os ydych wedi'i gymysgu gyda 3 rhan o slyri neu ddŵr, yn ogystal ag unrhyw ganllawiau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u cyhoeddi yn y drwydded.
- Mae cyngor i ffermwyr ar storio olew i'w weld ar wefan Ymgrych Oil Care: www.oilcare.org.uk/look-after-your-oil/farmers-horticulture/

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Cyfoeth Naturiol Cymru
Defra

Gweler y daflen 'Cysylltiadau Defnyddiol' yn y pecyn hwn